



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu yn y gwaith

Coleg Gŵyr Abertawe

**Heol Tycoch
Abertawe
SA2 9EB**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn â Choleg Gŵyr Abertawe

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth â saith is-gontractwr i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth ar hyd gorllewin, de, canolbarth a gogledd Cymru. Mae is-gontractwyr presennol yn cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, XR Training & Consultancy, Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Big Learning Company, The Construction Hub Academy Wales ac S&A Academy. Mae'r darparwr hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â dau sefydliad addysg uwch ar gyfer cyflwyno prentisiaethau gradd mewn peirianeg meddalwedd a pheirianeg drydanol a mecanyddol.

Mae'r darparwr wedi cyflawni twf sylweddol yn ei ddarpariaeth prentisiaethau er 2016, o ryw 250 o ddysgwyr i ryw 3,000 yn 2022-2023. Mae contract presennol Coleg Gŵyr Abertawe ar gyfer cyflwyno rhaglenni prentisiaethau dysgu yn y gwaith yn werth £10.5m yn 2023 i 2024.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe a'i bartneriaid yn cyflwyno prentisiaethau yn y sectorau canlynol ar lefelau 2 i 5:

- Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith
- Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig
- Addysg a Hyfforddiant
- Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu
- Gwallt a Harddwch
- Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Hamdden, Teithio a Thwristiaeth
- Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid

Adeg yr arolygiad, mae tua 2,280 o ddysgwyr prentisiaethau yn y gwaith yn y darparwr yn ymgymryd â hyfforddiant ar raglenni prentisiaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Meysydd darpariaeth mwyaf y sector yw iechyd a gofal cymdeithasol, rheolaeth, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, adeiladu a thai. Caiff tua 85% o'r ddarpariaeth prentisiaethau ei chyflwyno'n uniongyrchol gan y coleg, a chyflwynir y 15% sy'n weddill trwy ei rwydwaith o is-gontractwyr.

Crynodeb

Mae llawer o brentisiaid yn cynhyrchu gwaith yn unol â lefel a cham eu prentisiaeth. At ei gilydd, maent yn dangos eu bod yn galw dysgu blaenorol i gof yn gadarn ac yn cymhwyso hyn yn dda i gyd-destunau newydd. Mae bron pob un ohonynt yn parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau eu cyfoedion, eu haseswyr a'u tiwtoriaid, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhyngweithio'n hyderus mewn sesiynau grŵp a sesiynau un i un. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau ymarferol gwerthfawr. Mae llawer ohonynt yn cynhyrchu gwaith i safon dda ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth ysgrifenedig a llafar. Mae cyfraddau fframwaith a chyfraddau llwyddiant amserol yn amrywio'n sylweddol o fewn sectorau pwnc, ac ar eu traws.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn defnyddio'i rwydwaith cyflogwyr yn dda i baru dysgwyr i swyddi gwag â phrentisiaethau. Mae prosesau ymsefydlu yn drylwyr ac yn effeithiol wrth helpu dysgwyr i ymgynffwrdd yn eu rhaglen prentisiaeth yn dda. Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth y maent yn ei gael ganddynt. Mae systemau i nodi a chynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn hynod effeithiol.

Mae'r darparwr yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â saith is-gontractwr i gynnig ystod eang ac ymatebol o ddarpariaeth prentisiaethau. Mae byrddau cynghori'r sector yn cael effaith fawr iawn wrth helpu ffurfio llwybrau prentisiaethau newydd i ddiwallu anghenion cyflogwyr.

Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff profiadau dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith eu cynllunio'n dda ac maent yn ategu ei gilydd. Mae llawer o diwtoriaid ac aseswyr yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau addysgu ac asesu sy'n gweddu i anghenion a galluoedd y dysgwyr, a'r gofynion cymhwyster ar gyfer eu rhaglenni. Nid yw lleiafrif o aseswyr yn rhoi ffocws digonol ar sut mae dysgwyr yn datblygu medrau llythrennedd, digidol, ac yn enwedig medrau rhifedd, trwy gyd-destun eu gwaith.

Mae strwythur cyfarfodydd cynhwysfawr a defnyddiol ar waith i fonitro perfformiad a chydymffurfriad partneriaid cyflwyno mewnol ac allanol. Pan fydd uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn nodi materion tanberfformio, rhoddir ymyriadau priodol ar waith i gefnogi gwelliant. Fodd bynnag, nid yw prosesau a systemau i lywio a chefnogi sicrhau ansawdd a hunanwerthuso bob amser yn effeithiol. Caiff cynadleddau blynyddol a diwrnodau hyfforddiant mewn swydd rheolaidd eu cynllunio'n effeithiol i gefnogi meysydd i'w datblygu, ac maent yn hygyrch i bob un o'r staff.

Argymhellion

- A1 Gwella'r cyfraddau y mae prentisiaid yn cyflawni eu fframweithiau arnynt a sicrhau bod yr holl brentisiaid yn eu cwblhau mewn pryd
- A2 Adolygu a chryfhau effeithiolrwydd prosesau a systemau allweddol sy'n ategu monitro perfformiad, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gan gynnwys sut caiff barn dysgwyr ei hystyried
- A3 Sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy eu cyd-destun galwedigaethol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwyr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith, i'w lledaenu ar wefan Estyn, yn ymwneud â:

- datblygiad ac effaith byrddau cyflogwyr sector
- cynnig cymorth effeithiol i brentisiaid ag anghenion dysgu ychwanegol

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Mae llawer o brentisiaid yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu dros gyfnod. Maent yn ymwybodol os ydynt yn gwneud cynnydd yn briodol neu p'un a ydynt ar ei hôl hi â'u gwaith. Mewn sesiynau theori ac ymarferol i ffwrdd o'r gwaith, maent yn cynhyrchu gwaith yn unol â lefel a cham eu prentisiaeth.

Mewn sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, cyfarfodydd adolygu ac wrth gyflawni eu rolau swydd, mae llawer o ddysgwyr yn dangos eu bod yn galw dysgu blaenorol i gof yn gadarn ac yn cymhwyso hyn i gyd-destunau newydd yn dda. Mae llawer o ddysgwyr yn wybodus am eu rolau swydd ac yn myfyrio'n aml ar eu harfer a'u cyfrifoldebau yn y gweithle yng nghyd-destun dysgu newydd. Maent yn esbonio'n glir sut mae theori yn cysylltu â'u gweithleoedd. Er enghraifft, mae dysgwyr gofal plant yn ystyried mesurau lliniaru risg mewn lleoliadau meithrin, a dysgwyr gosodiadau trydanol yn myfyrio'n dda ar y strwythurau wal a'r dulliau adeiladu mewn gwahanol leoliadau domestig y maent wedi dod ar eu traws.

Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos ymwybyddiaeth graff o'r cryfderau a'r heriau yn eu ffyrdd eu hunain o weithio. Er enghraifft, mae prentis ag anghenion dysgu ychwanegol yn disgrifio'r arddulliau dysgu a gweithio a oedd fwyaf effeithiol iddo, a sut gall yr asesydd ei helpu i fod yn gynhyrchiol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau eu cyfoedion, eu haseswyr a'u tiwtoriaid, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn hyderus wrth ryngweithio mewn sesiynau grŵp a sesiynau un i un. Mae llawer o ddysgwyr yn huawdl ac yn defnyddio iaith a therminoleg dechnegol yn briodol. Er enghraifft, mae dysgwyr gwaith coed yn esbonio'n glir i'w cyfoedion y technegau y maent yn eu defnyddio i osod drysau ar safle.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos ymddygiadau proffesiynol ac yn aelodau gwerthfawr o weithlu eu cyflogwr. Fodd bynnag, mae presenoldeb prentisiaid adeiladu a'r amgylchedd adeiledig mewn sesiynau gweithdai i ffwrdd o'r gwaith ac yn yr ystafell ddosbarth yn anghyson.

Mae ychydig o ddysgwyr yn mynd ati i nodi a datrys problemau er budd eu cydweithwyr a'u cyflogwyr. Er enghraifft, mae technegydd labordy sy'n brentis yn esbonio ac yn dangos system cofnodi data newydd yn gweithio, a ddatblygwyd ganddo i wella effeithlonrwydd yn ei weithle.

Mewn sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, lle bo'n berthnasol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau ymarferol gwerthfawr sydd naill ai'n berthnasol yn uniongyrchol i'w rolau swydd neu a fydd yn berthnasol wrth iddynt symud ymlaen yn eu gyrfaedd. Maent yn dilyn manylebau'n agos ac mae llawer ohonynt yn gweithio i safon dda gan ddangos medr wrth weithio gydag ystod o gyfarpar, a medrusrwydd wrth ddefnyddio offer llaw. Er enghraifft, mae prentisiaid gosodiadau trydanol yn rhoi sylw manwl i swyddogaeth ac ystyriaethau esthetig wrth osod gwifrau mewn unedau defnyddio trydanol, ac mae prentisiaid gwaith coed yn gosod gosodiadau drws i safon broffesiynol. Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos lefelau hynod uchel o fedr a sylw i fanylder, ac maent yn mwynhau'r ymdeimlad o foddhad pan fyddant yn gwneud gwaith yn dda. Yn aml, mae'r dysgwyr hyn yn mynd ymlaen i ddatblygu eu medrau ymhellach fel rhan o baratodau ar gyfer cystadlaethau medrau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae prentisiaid plastro yn creu patrymau geometrig cymhleth cywrain yn fedrus, gan sicrhau bod cyn lleied o wastraff â phosibl.

Trwy eu gwaith ysgrifenedig, mae llawer o ddysgwyr yn disgrifio eu rolau ac yn esbonio'n dda sut mae gwahanol ymagweddau yn berthnasol i'r gweithle. Mae ymatebion ysgrifenedig llawer o ddysgwyr yn mynd i'r afael â'r testunau wrth law yn briodol, a lleiafrif ohonynt yn rhoi esboniadau a disgrifiadau cynhwysfawr a chlir. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn gadarnhaol i adborth ysgrifenedig a llafar trwy wella'u gwaith neu'u harfer.

Mae llawer o ddysgwyr yn cyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn briodol, gyda sillafu a gramadeg cadarn. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn gwneud camgymeriadau sylfaenol dro ar ôl tro mewn sillafu a gramadeg. Nid yw ychydig o ddysgwyr lefel uwch yn cyfeirio'n briodol at eu ffynonellau.

Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae mwyafrif o ddysgwyr sy'n cofrestru gyda lefelau isel o ruglder yn y Gymraeg yn dilyn unedau hunanastudio Prentis-Iaith yn unol â pholisi'r darparwr. Yn gynyddol, mae'r dysgwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg yn dilyn eu cymwysterau llythrennedd a rhifedd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Fodd bynnag, at ei gilydd, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n datblygu eu Cymraeg fel rhan o'u dysgu galwedigaethol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gweithio'n ddigidol ac o bell yn hyderus ac yn gymwys pan fydd yn fuddiol iddynt wneud hynny. Maent yn cyfrannu'n dda at gyfarfodydd adolygu a sesiynau addysgu ar-lein. Mae prentisiaid arweinyddiaeth a rheolaeth a phrentisiaid mewn lleoliadau iechyd a gofal yn esbonio'n glir sut mae arbed amser a'r gallu i weithio o wahanol leoliadau yn fuddiol iddynt o ran datblygu yn eu hastudiaethau a bod yn gynhyrchiol yn eu rolau swydd.

Ar draws y ddarpariaeth, mae'r cynnydd a wna dysgwyr yn datblygu eu medrau rhifedd yn amrywiol. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddysgwyr yn ei chael yn anodd ymgymryd â thasgau cysylltiedig ac nid ydynt yn cymryd digon o ofal wrth weithio gyda rhifau i'w helpu i osgoi camgymeriadau. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianeg a'r amgylchedd adeiledig yn gwneud gormod o gamgymeriadau mathemategol, sy'n cyfyngu ar eu cynnydd yn y disgyblaethau technegol hyn.

Ers y tarfu yn sgil pandemig COVID-19, mae gwybodaeth ddiweddar am ddeilliannau cyhoeddedig wedi'u dilysu'n genedlaethol ar gael ar gyfer 2021-2022 yn unig. Yn y flwyddyn honno, cyflawnodd mwyafrif o brentisiaid uwch a phrentisiaid lefel 3 y darparwr eu fframweithiau yn llwyddiannus, a chyflawnodd ychydig dros hanner y prentisiaid lefel sylfaen eu fframweithiau. O gymharu â deilliannau cenedlaethol cyhoeddedig ar gyfer yr un flwyddyn, roedd cyfraddau llwyddiant fframweithiau yn gryf ar gyfer iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, yn enwedig ymhlith prentisiaid uwch. Roedd cyfraddau llwyddiant fframweithiau yn wan ar gyfer TGCh, busnes, gweinyddu a'r gyfraith, a hefyd ar gyfer prentisiaethau sylfaen mewn peirianeg a thechnolegau gweithgynhyrchu. Dangosodd data'r darparwr ei hun, o'r rhai a gwblhaodd eu fframweithiau'n llwyddiannus, fod tua hanner wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl i wneud hynny.

Lles, cymorth ac arweiniad

Mae'r darparwr yn cynnig cyngor ac arweiniad cychwynnol defnyddiol i ddysgwyr cyn ac yn ystod y cyfnod ymrestru. Mae'n defnyddio'i rwydwaith cyflogwyr yn dda i baru dysgwyr i swyddi gwag â phrentisiaethau, gan gynnwys gwahodd cyflogwyr i siarad â dysgwyr y coleg am eu rhaglenni prentisiaethau a chynorthwyo dysgwyr i elwa ar gyfleoedd ar y gwasanaeth swyddi gwag â phrentisiaethau.

Mae'r darparwr yn cyflwyno proses ymsefydlu drylwyr ac yn darparu llawlyfr defnyddiol i ddysgwyr, sy'n rhoi'r wybodaeth allweddol i ddysgwyr am eu fframwaith prentisiaeth, ac yn eu helpu i ddeall argaeledd y cymorth a gynigir. Dywed llawer o ddysgwyr eu bod yn cael gwybodaeth dda wrth ddewis eu rhaglen ddysgu a bod eu cyfnod ymsefydlu wedi'u helpu i ymgynefino yn y rhaglen prentisiaeth.

Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn mabwysiadu eu dulliau yn sensitif i weddu i anghenion cymorth ac arddulliau dysgu dysgwyr unigol. Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr gymorth da gan aseswyr a thiwtoriaid, sy'n gwirio eu lles yn rheolaidd, ac maent ar gael i'w cynorthwyo y tu mewn a'r tu allan i sesiynau.

Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn manteisio ar gymorth penodol â lles, fel gwasanaethau cwnsela, trwy hyfforddwyrs dysgu dynodedig a gwasanaeth cymorth iechyd meddwl ar-lein. Fodd bynnag, ni chaiff gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth am gymorth â lles eu dilyn yn gyson gan yr holl dimau cyflwyno.

Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi datblygu pecyn cymorth lles defnyddiol ar gyfer prentisiaid sy'n hyrwyddo iechyd meddwl a lles cadarnhaol, gan roi cyfle i ddysgwyr fanteisio ar ystod eang o asiantaethau cymorth, er ei bod yn rhy gynnar i ddangos effaith hyn ar les dysgwyr.

Mae gan y darparwr systemau hynod effeithiol ar waith i nodi a chynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Pennir tîm niwroamrywiaeth arbenigol i ddysgwyr y nodwyd bod ganddynt ADY. Mae'r tîm yn cysylltu â'r dysgwyr yn rheolaidd ac yn rhoi cymorth pwrpasol iddynt, fel meddalwedd arbenigol, apiau darllen, technoleg gynorthwyol a threfniadau mynediad ar gyfer arholiadau. Mae'r darparwr yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaeth allanol arbenigol i ddarparu asesiadau diagnostig estynedig ar gyfer anghenion dysgu fel dyslecsia, dyspracsia ac ADHD.

Mae'r darparwr yn olrhain cynnydd dysgwyr sy'n cael cymorth ADY yn rheolaidd i wirio eu bod yn parhau i fod ar y llwybr cywir i gwblhau eu fframweithiau prentisiaeth. Mae timau ADY yn cyfathrebu'n rheolaidd ag aseswyr a thiworiaid ynglŷn â'r cymorth a ddarperir i ddysgwyr, er nad yw'r wybodaeth hon ar gael yn systematig i'r holl staff cyflwyno.

Trwy ddysgu proffesiynol targedig, mae'r darparwr wedi cynorthwyo timau cyflwyno i adnabod yn well ddysgwyr nad ydynt wedi datgelu bod ganddynt ADY adeg ymrestru. O ganlyniad, mae aseswyr a thiworiaid yn sicrhau'n hyderus ac yn sensitif fod y rhan fwyaf o ddysgwyr ag ADY yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Dywed dysgwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth ADY fod y cymorth a gânt nid yn unig yn eu helpu i wneud cynnydd tuag at gwblhau eu prentisiaethau ond ei fod hefyd yn cynyddu eu hyder a'u hunan-barch. Dywedodd un dysgwr, 'Roeddwn i'n arfer meddwl bod rhywbeth o'i le arna' i, ond ers ymuno â'r brentisiaeth a chael cymorth, rydw i wedi sylweddoli nad yw dyslecsia'n broblem; mae jest ynglŷn â sut rydw i'n gweithio'.

Mae gwaith y darparwr i ystyried barn dysgwyr yn wan. Mae'r darparwr yn cyflwyno arolygon dysgwyr yn y cyfnod ymsefydlu, ac ar ganol a diwedd rhaglen. Fodd bynnag, mae cyfraddau ymateb yn wael iawn ac ychydig iawn o ddysgwyr sy'n cofio eu bod wedi llenwi arolwg. Gall dysgwyr roi adborth ar eu barn trwy eu system e-bortffolio, hefyd. Fodd bynnag, mae defnydd ystyrion o'r cyfleuster hwn wedi'i gyfyngu i un maes pwnc sector ac ychydig o ddysgwyr. O ganlyniad, nid oes gan y darparwr ddealltwriaeth glir, ar y cyfan, o farn dysgwyr ar ba elfennau o'i ddarpariaeth sy'n gweithio'n dda, a beth gellid ei wella.

Mae gan y darparwr a'i bartneriaid allanol bolisïau a gweithdrefnau addas yn ymwneud â diogelu, ac maent yn rheoli materion diogelu yn briodol. Mae gan y darparwr weithdrefnau priodol ar gyfer gwirio addaswydd ei staff ei hun a phartneriaid allanol sydd mewn cysylltiad â dysgwyr.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod pob un o'r staff, gan gynnwys partneriaid allanol, yn ymgymryd â hyfforddiant priodol ar ddiogelu. Mae hyn yn cynnwys ffocws cryf yn y gynhadledd flynyddol ddiweddaraf i staff ar ddiogelu ac atal eithafiaeth. Mae swyddogion arweiniol diogelu dynodedig wedi ymgymryd â hyfforddiant

angenrheidiol, ac maent yn lledaenu gwybodaeth ddefnyddiol am faterion atal lleol a rhanbarthol i staff cyflwyno ehangach yn rheolaidd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu yn eu gweithle, ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwy y dylent gysylltu ag ef / â hi os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Mae'r darparwr yn sicrhau bod dysgwyr yn cael hyfforddiant ar-lein priodol ar bynciau fel diogelu a radicaleiddio yn ystod y cyfnod ymsefydlu. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth glir o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, ac yn yr achosion gorau, gall dysgwyr sôn am berthnasedd diogelu trwy gymhwyso bywyd go iawn i'w rôl.

At ei gilydd, mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Addysgu, hyfforddi, asesu a phrofiadau dysgu

Mae'r darparwr yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth. Mae'n ymatebol i anghenion cyflogwyr yn yr ardal ac yn datblygu llwybrau prentisiaeth newydd yn unol â hynny. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi sefydlu llwybrau newydd mewn gofal amdriniaethol ar gyfer cynorthwywyr gofal iechyd llawfeddygol, gwasanaethau cyfieithu a thechnegwyr gorchuddio lloriau.

Mae'r darparwr yn defnyddio'i 8 bwrdd cyflogwyr yn effeithiol. Mae'r byrddau cynghori sector hyn yn cyfrannu gwybodaeth ddefnyddiol am y farchnad lafur, yn cynghori ar raglenni newydd posibl, a bydd modd cael trafodaethau effeithiol â nhw ar gyfer cynllunio darpariaeth. Mae'r bwrdd cyflogwyr digidol, er enghraifft, wedi arwain at ddatblygu pum llwybr prentisiaeth newydd i gefnogi meysydd twf yn yr economi ddigidol leol.

Mae'r darparwr arweiniol yn gweithio gyda saith partner cyflwyno allanol sy'n ychwanegu ehangder trwy gynnig darpariaeth arbenigol mewn sectorau nad yw'r prif ddarparwr yn eu cynnig, ar y cyfan. Er enghraifft, mae darpariaeth a gynigir trwy'r Urdd neu Mudiad Meithrin yn rhoi cyfleoedd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i ddysgwyr sy'n dymuno gweithio yn y sectorau hyfforddi chwaraeon a gofal plant.

Mae cynllunio darpariaeth yn rhoi ystyriaeth ofalus i ddilyniant, ac mae llwybrau prentisiaeth yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd yn eu dysgu a'u rolau swydd. Ceir cydbwysedd da o ran darpariaeth ar lefelau sylfaen, prentisiaeth a phrentisiaeth uwch.

Mae'r darparwr yn defnyddio ystod o fodelau cyflwyno i alluogi dysgwyr i ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) sydd eu hangen ar gyfer eu prentisiaeth. Mewn adolygiadau cynnydd a sesiynau sy'n cael eu haddysgu i ffwrdd o'r gwaith, mae aseswyr a thiworiaid hefyd yn annog dysgwyr sydd eisoes wedi ennill eu cymwysterau SHC i fyfyrion ar sut maent yn defnyddio eu medrau digidol, llythrennedd a rhifedd yn eu cyd-destunau gwaith, a pharhau i'w datblygu y tu hwnt i'w sesiynau medrau ffurfiol a addysgir. Fodd bynnag, caiff hyn ei gymhwyso'n anghyson ar draws y ddarpariaeth ac nid yw pob un o'r dysgwyr yn datblygu'r medrau hyn i'r graddau y gallent.

Mae'r darparwr yn cynnig ystod o ffyrdd y gall dysgwyr ddilyn eu prentisiaethau, neu elfennau o'u prentisiaethau, yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae trefn ddefnyddiol o ran gweithio mewn partneriaeth â'r Urdd yn rhoi cyfle i ddysgwyr gwblhau eu cymwysterau SHC yn ddwyieithog neu yn Gymraeg. Mae'r darparwr wedi nodi staff sy'n siarad Cymraeg sy'n dymuno datblygu eu gallu i addysgu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg, ac yn eu cynorthwyo'n dda, trwy fentora, ac ystod o ddysgu proffesiynol.

Mewn meysydd sector blaenoriaethol a darpariaeth Cymru gyfan, mae'r darparwr yn gweithio'n galed i recriwtio neu ddatblygu staff sy'n siarad Cymraeg. Y nod yw sicrhau bod opsiwn cyfrwng Cymraeg ar gael. I ddysgwyr sy'n siaradwyr Cymraeg sy'n datblygu neu'n siaradwyr rhugl dihyder, mae'r darparwr yn defnyddio deunyddiau Prentis-laith i'w helpu i ddatblygu medrau mewn defnyddio Cymraeg yn y gwaith. At ei gilydd, ychydig o ddysgwyr yn unig ar draws y ddarpariaeth sy'n cwblhau elfennau sylweddol o'u rhaglenni yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r darparwr yn hyrwyddo cyfranogiad dysgwyr mewn cystadlaethau medrau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. I'r sectorau hynny sy'n cymryd rhan, daw hyn â chyfle gwerthfawr i ddysgwyr a staff ddatblygu medrau ar lefel uwch a'r addysgeg ategol i'w haddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o brentisiaethau yn cynnwys elfen o addysgu i ffwrdd o'r gwaith, sy'n rhoi cyfle defnyddiol i ddysgwyr feithrin eu gwybodaeth, a dysgu, ymarfer a datblygu medrau na allant efallai eu gwneud yn y gweithle. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff profiadau dysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith eu cynllunio'n dda ac maent yn ategu ei gilydd yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig o feysydd sector, nid yw staff yn cydlynu nac yn cyfleu gwybodaeth am gynnwys dysgu i ffwrdd o'r gwaith a chynnydd dysgwyr yn effeithiol, sy'n rhwystro gallu aseswyr i fonitro cynnydd dysgwyr yn gyffredinol.

Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn dangos gwybodaeth bynciol gref, ynghyd ag ystod eang o fedrau a phrofiad galwedigaethol, ac yn darparu pontydd buddiol rhwng dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac enghreifftiau o'r gweithle a'r diwydiant.

Mae llawer o diwtoriaid ac aseswyr yn cynllunio gweithgareddau dysgu'n dda. Maent yn creu amgylcheddau dysgu cynhwysol. Maent yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau addysgu ac asesu sy'n gweddu i anghenion a galluoedd y dysgwyr, a'r gofynion cymhwyster ar gyfer eu rhaglenni. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae diffyg amrywiaeth yn yr addysgu mewn sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, ac mae'n dibynnu'n ormodol ar gyflwyniadau hir pan mae diddordeb ac ymgysylltiad dysgwyr yn pylu.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae tiwtoriaid ac aseswyr yn defnyddio holi'n effeithiol i gadarnhau dealltwriaeth, cynnal cyflymdra priodol y sesiynau a chefnogi ffocws ac ymgysylltiad dysgwyr. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio holi digon i helpu dysgwyr i barhau i ganolbwyntio, neu maent yn caniatáu i gyfnodau holi grwpiau cyfan gael eu rheoli gan un neu ddau ddysgwr, sy'n golygu nad yw pob dysgwr yn cyfrannu.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid ac aseswyr yn ymwybodol o hoffterau eu dysgwyr ar gyfer dysgu ac o anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Maent yn teilwra eu dulliau yn unol â hynny. Er enghraifft, mewn sesiwn adolygu gyda dysgwr ag ADHD sy'n alwedigaethol fedrus sy'n cael anhawster yn trefnu meddyliau yn gydlynus, mae'r asesydd yn crynhoi ymatebion cyflym y dysgwr yn fedrus ac yn ei helpu i fyfrio ac ailstrwythuro'r cynnwys mewn ffordd sy'n bodloni'r meini prawf asesu.

Mewn sesiynau yn y gwaith, mae aseswyr yn cynnal adolygiadau defnyddiol gyda'u dysgwyr. Maent yn gwirio cynnydd dysgwyr, yn darparu arweiniad galwedigaethol defnyddiol ac yn cynnal asesiadau o gymhwysedd galwedigaethol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darparu adborth llafar neu ysgrifenedig, sy'n galluogi dysgwyr i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Maent yn gwirio lles, llesiant a diogelwch dysgwyr ac yn gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn gwybod ble i fynd os oes angen cymorth neu gefnogaeth arnynt. Mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn cysylltu'n effeithiol â chyflogwyr ac yn eu cynnwys yn y broses adolygu.

Nid yw lleiafrif o aseswyr yn rhoi ffocws digonol i sut mae dysgwyr yn datblygu medrau llythrennedd, digidol, ac yn enwedig medrau rhifedd, trwy gyd-destun eu gwaith. Mae eglurder y targedau ar gyfer dysgwyr a osodir gan aseswyr ac ansawdd ac amseroldeb cadw cofnodion o adolygiadau gan aseswyr yn anghyson. Mewn ychydig o feysydd sector, ni chaiff ffurflenni adolygu eu llenwi'n gyson nac yn llawn, ac o ganlyniad, ni chaiff targedau dysgwyr eu cofnodi na'u holrhain yn ffurfiol.

Mae aseswyr a thiworiaid yn defnyddio cyflwyno ar-lein yn briodol ac yn effeithiol i gynnal adolygiadau, cynnal sgysiau â dysgwyr a chyflwyno sesiynau addysgu. Yn y rhan fwyaf o sesiynau ar-lein, mae tiwtoriaid ac aseswyr yn defnyddio ystod o dechnegau addysgu addas, gan gynnwys dulliau cynllunio cydweithredol a gwaith cydamserol ar ddogfennau i gynnal diddordeb ac ymgysylltiad dysgwr.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â saith is-gontractwr i dyfu a datblygu ystod eang o raglenni prentisiaeth. Mae'r darparwr yn strwythuro'i ddarpariaeth cyflwyno prentisiaethau trwy gyfuniad o bartneriaid cyflwyno mewnol ac allanol. Fel arfer, cyfeirir at adrannau'r coleg fel partneriaid cyflwyno mewnol, tra bod is-gontractwyr yn cael eu hadnabod fel partneriaid cyflwyno allanol.

Cyflwynir darpariaeth prentisiaethau yn uniongyrchol gan y coleg yn bennaf, gan gynnwys GCS Training, sy'n gweithredu fel cangen hyfforddiant busnes y coleg. Caiff partneriaid cyflwyno allanol eu dewis yn ofalus am eu harbenigedd, sy'n cefnogi darpariaeth yn dda mewn meysydd fel technegydd labordy a rhaglenni prentisiaeth ddigidol. Mae'r holl drefniadau is-gontractio newydd yn destun prosesau diwydrwydd dyladwy trylwyr sy'n sicrhau goruchwyliaeth gynhwysfawr a chymeradwyaeth ffurfiol gan fwrdd llywodraethol y coleg.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu arweinyddiaeth strategol a rheolaeth weithredol briodol o ran darparu prentisiaethau. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn ymgysylltu'n effeithiol â chyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod darpariaeth prentisiaethau yn adlewyrchu blaenoriaethau'n briodol ar y lefelau hyn.

Mae pennaeth a phrif weithredwr y darparwr yn aelod gweithgar o'r bartneriaeth dysgu a medrau ranbarthol ac yn cynrychioli colegau o fewn y rhanbarth. Mae'r ymglymiad hwn wedi helpu hwyluso cydweithio â chyflogwyr lleol i greu rhaglenni prentisiaethau arloesol a phwrpasol. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhaglenni yn y meysydd amdriniaethol clinigol, digidol a gorchuddio lloriau, yn ogystal ag ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn cymdeithasau tai. Ar hyn o bryd, y darparwr yw'r unig ddarparwr yng Nghymru sy'n cynnig y brentisiaeth tai.

Yn ychwanegol, mae'r darparwr wedi sefydlu byrddau cyflogwyr sector hynod effeithiol i gefnogi ymgysylltu â chyflogwyr. Mae'r darparwr hefyd yn sicrhau bod rhaglenni â niferoedd isel o ddysgwyr yn parhau i gael eu cefnogi i ddiwallu anghenion cyflogwyr, lle bo'n briodol. Mae'r byrddau cyflogwyr yn hwyluso cyfathrebu dwy ffordd yn hynod effeithiol rhwng y darparwr a'r cyflogwyr i lywio cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

Ymgorfforir cyflwyno prentisiaethau yn fewnol yn y coleg o fewn y strwythur adrannol a chyfadranol, gyda chysylltiadau clir â thimau swyddogaethol a chymorth i ddysgwyr. Pan mae hyn yn gweithio'n dda, mae cyfathrebu a rhyngweithio effeithiol rhwng staff cyflwyno yn sicrhau bod cynnydd dysgwyr yn cael ei gefnogi a'i fonitro'n gryf. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws adrannau. Mae arweinwyr yn cydnabod yr amrywioldeb hwn ac yn mynd ati i roi mesurau gwelliant targedig ac ymyrraeth ar waith i fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn.

Pan mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn nodi materion tanberfformio, caiff ymyriadau priodol eu rhoi ar waith i gefnogi gwelliant. Er enghraifft, rhoddwyd camau adferol targedig ar waith pan nodwyd materion perfformiad o fewn partner cyflwyno sy'n gweithredu fel is-gwmni i'r coleg. Arweiniodd hyn at ddiddymu'r is-gwmni yn y pen draw, a throsglwyddo rhai agweddau ar y ddarpariaeth a'r staff cyflwyno cysylltiedig o dan reolaeth uniongyrchol y coleg.

Mae'r darparwr yn defnyddio strwythur cyfarfodydd cynhwysfawr a defnyddiol, sy'n hwyluso cydweithio uwch reolwyr a rheolwyr canol o holl feysydd y ddarpariaeth i fonitro perfformiad a chydymffurfio. Mae prosesau monitro sy'n ategu trefniadau monitro perfformiad rheolaidd yn canolbwyntio'n rhy gyfyng ar faterion cyllid a chydymffurfio ar hyn o bryd, ac nid ydynt yn cwmpasu agweddau ehangach yn llawn, fel dangosyddion perfformiad allweddol, arsylwadau, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant cynhwysfawr.

At ei gilydd, mae arweinwyr a rheolwyr yn nodi cryfderau allweddol a meysydd i'w datblygu ar draws y ddarpariaeth yn briodol. Fodd bynnag, nid yw prosesau a systemau i lywio a chefnogi sicrhau ansawdd a hunanwerthuso bob amser yn effeithiol. Nid yw trefniadau ar gyfer cynllunio gwelliant a monitro cynnydd yn nodi mesurau a dangosyddion perfformiad allweddol yn gynhwysfawr ac yn ddigon manwl gywir, ac nid yw cynlluniau gwella yn cynnwys targedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir clir a phenodol ar gyfer gwella.

Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad i ddatblygu a gwella systemau ac adnoddau rheoli i gefnogi datblygiad gwelliant ansawdd parhaus ar draws yr holl feysydd cyflwyno. Mae'r coleg yn defnyddio cymorth cyllid allanol i hwyluso'r datblygiadau

hyn yn effeithiol. Fodd bynnag, mae defnydd o'r systemau hyn yn cael ei ddatblygu o hyd, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith.

Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol yn dda o fewn eu meysydd galwedigaethol. Mae'r ymarferwyr hyn yn cydweithio'n effeithiol ag ystod o sefydliadau allanol i ymestyn gweithgareddau dysgu, asesu a chymorth. Fodd bynnag, mae'r darparwr yn cydnabod bod prosesau a systemau ar gyfer casglu adborth gan ddysgwyr a chyflogwyr yn aneffeithiol a bod angen eu datblygu ymhellach. Mae'r darparwr yn cydnabod, gan fod ei ddarpariaeth wedi tyfu, nad yw rhai systemau yn addas at eu diben mwyach, a bod hyn yn creu heriau sylweddol o ran capasiti ac adnoddau.

Caiff cynadleddau blynyddol a diwrnodau hyfforddiant rheolaidd, sy'n canolbwyntio'n benodol ar brentisiaethau, eu cynllunio'n effeithiol i gefnogi meysydd i'w datblygu a nodwyd trwy adolygiadau cydymffurfio ansawdd, ac mae'r digwyddiadau hyn yn hygyrch i bartneriaid cyflwyno mewnol ac allanol, fel ei gilydd. Mae themâu diweddar yn cynnwys diogelu, lles a gwella prosesau adolygu cynnydd dysgwyr. Mae'r darparwr yn ymgysylltu ag arbenigwyr allanol, lle bo'n briodol, i hwyluso sesiynau cydweithredol gwerthfawr, er enghraifft mewn gweithgareddau yn gysylltiedig â diogelu a lansio pecyn cymorth lles. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr o ystod amrywiol o sectorau i ymestyn a datblygu arfer broffesiynol wrth gynorthwyo dysgwyr.

Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi datblygu ei raglen hyfforddiant a chymorth strategol er budd yr holl ymarferwyr, gan gynnwys rhai sydd wedi eu penodi'n ddiweddar, yn ogystal ag ymarferwyr a rheolwyr profiadol. Mae hyn yn cefnogi'r nod i leihau trosiant staff a chefnogi dilyniant mewnol. Mae'r strategaeth recriwtio gyffredinol yn ymdrechu i gynnal gweithlu cryf o ymarferwyr arbenigol sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad cyfoes o fewn eu meysydd galwedigaethol. Fodd bynnag, mae recriwtio mewn meysydd pwnc lle mae prinder, fel adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, yn parhau i fod yn hynod heriol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i gyflogwyr, ac yn ystyried barn athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r pennaeth / prif weithredwr, llywodraethwyr (lle bo'n briodol), uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr ac aseswyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, sesiynau theori a sesiynau hyfforddi ymarferol
- yn ymweld ag ystod eang o ddysgwyr yn eu gweithleoedd i arsylwi eu medrau gweithle, arsylwi asesiadau, adolygu eu gwaith theori a chyfarfod â'u cyflogwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu, olrhain a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd rheolwyr a staff, cyfarfodydd ag is-gontractwyr a phartneriaid allweddol a chyfarfodydd â chyflogwyr, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2024